

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

**Gwybodaeth ar gyfer mis
Medi – diweddariad
diwedd Awst 2020**

Gwybodaeth ar gyfer mis Medi

Mae'r gweinidog addysg wedi cyhoeddi ar y 9fed o Orffennaf bod pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer tymor yr Hydref. Mae'r ddogfen yma yn rhannu gwybodaeth gyda chi fel rhieni a disgyblion am drefniadau y normal 'newydd' ar gyfer mis Medi. Fe fydd yr wybodaeth yma efallai'n newid yn dilyn cyfarwyddiadau pellach o Lywodraeth Cymru neu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr wythnosau nesaf.

Y ddwy wythnos gyntaf: Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin wedi penderfynu dilyn canllaw LICC sy'n nodi, ar ddechrau tymor, y gellid defnyddio pythefnos i gynllunio ac ail-drefnu. Yn ystod dwy wythnos gyntaf y tymor, fe fydd yr ysgol yn gweithredu polisi o ddychwelyd graddol, gan gynyddu capasiti ar gyfer agor yn llawn ar y 14eg o Fedi 2020. Bydd blynyddoedd ysgol yn mynychu ar y diwrnodau canlynol:

Medi 1af ac 2il – diwrnodau di-gyswllt (*staff yn unig*)

Medi 3ydd – Blwyddyn 7 a 12

Medi 4ydd – Blwyddyn 7, 11 a 13

Medi 7fed – Blwyddyn 8, 9 a 10

Medi 8fed – Blwyddyn 10, 11, 12 a 13

Medi 9fed – Blwyddyn 7, 8 a 9

Medi 10fed – Blwyddyn 10, 11, 12 a 13

Medi 11eg – Blwyddyn 7, 8, 9, 10 a 11

Medi 14eg ymlaen – pob disgybl.

Grwpio disgyblion: Ar y diwrnod cyntaf y bydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi fe fydd y disgyblion yn derbyn eu amserlen newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-2021 a fydd yn cynnwys ystafelloedd dros dro ar hyn o bryd a bydd yr amserlen yma'n weithredol o ddechrau'r tymor. Yn dilyn y drefn arferol fe fydd disgyblion yn derbyn ei trefnydd personol ond eleni, yn wahanol i'r arfer ni fydd cost am y trefnydd.

Ar gyfer blwyddyn 10, 11, 12 a 13 fe fyddwn yn treialu ffrydio byw trwy Hwb – Google Meet. Pan na fydd y flwyddyn yn bresennol yn yr ysgol, fe fydd y disgyblion yn medru dilyn eu hamserlen arferol o adref, gan dderbyn addysg wyneb i wyneb o'u athrawon dosbarth. Cynllun wrth gefn yw hwn rhag ofn y bydd galw am gyfnod clo lleol neu chenedlaethol eto. Gan ein bod yn treialu'r cynllun bydd angen tipyn o amynedd os na fydd pethau'n gweithio.

Yn dilyn canllawiau LICC fe fyddwn yn:

- Grwpio disgyblion gyda'i gilydd pan yn bosibl gan gadw at 'bybl/grŵp blwyddyn.'
- Osgoi cyswllt rhwng grwpiau pan yn bosibl.
- Trefnu dosbarthiadau gyda desgiau yn wynebu'r blaen.
- Sicrhau bod staff yn cadw pellter cymdeithasol o'r disgyblion a staff eraill gymaint â phosibl.
- Parhau gyda'n protocol glanhau presennol.

Bydd y mwyafrif o ddisgyblion CA3 yn cael eu dysgu o fewn eu grwpiau dosbarth arwahân i ambell grŵp a fydd wedi eu setio yn y pynciau craidd. Fel ysgol fe ymgeisiwn, pan fo'n bosibl, bod y grŵp cyswllt yn ddim mwy na grŵp blwyddyn. Bydd blwyddyn 7 ac 8 yn cael eu cadw mewn blociau arwahan pryd bynnag bo hynny'n bosibl.

Bydd disgyblion CA4 a CA5 mewn grwpiau cyswllt mwy o faint a fydd yn sicrhau ein bod yn medru cynnig pob un o'r pynciau ar y cwricwlwm a bod pob disgybl yn cael arbenigedd pynciol. Eto ni fydd y grŵp cyswllt yn fwy na grŵp blwyddyn. Bydd pob blwyddyn yn symud cyn lleied â phosibl o fewn yr adeilad.

Bydd disgwyl bod pob disgybl yn cadw pellter o fewn eu grwpiau. Bydd rhaid iddynt ddilyn y polisi fel sy'n cael ei nodi yn y cytundeb ysgol-cartref.

Bydd staff yn cadw at reolau ymbellhau cymdeithasol ar bob achlysur ond byddant yn medru gweithredu ar draws dosbarthiadau gwahanol a blynyddoedd gwahanol er mwyn medru hwyluso yr amserlen. Pan fo angen i staff i symud rhwng dosbarthiadau a grwpiau blwyddyn, fe fyddant yn cadw pellter o'r dysgwyr a'r staff. Bydd staff yn cadw pellter o'r dysgwyr gan aros o fewn y ffin 2 fetr pan yn dysgu.

Byddwn yn annog disgyblion i aros tu allan i'r adeilad gymaint â phosibl mewn cyfnodau di-gyswllt pan fydd y tywydd yn caniatáu. Mae amgylchedd ddysgu allanol hefyd wedi ei chreu ar gyfer yr 8 wythnos gyntaf.

Cwricwlwm: Bydd trefniadau'r cwricwlwm yn parhau fel arfer. Mae disgyblion blwyddyn 11 a 13 eisoes wedi cael y cyfle i edrych ar yr hyn maent eisoes wedi ei gyflawni yn ystod y cyfnod clo. Bydd blwyddyn 10 a 12 yn dechrau ar eu pynciau opsiwn yn syth. Byddwn yn dilyn canllawiau LICC o ran gwersi ymarferol ac ymarfer corff.

Lles disgyblion: Bydd lles disgyblion yn dilyn y cyfnod clo yn flaenoriaeth. Bydd hyfforddiant dwys yn cael ei roi i diwtoriaid dosbarth a bydd y cyfnodau boreol gyda'r tiwtor dosbarth yn ffocysu ar les y disgyblion.

Ymbellhau cymdeithasol: Bydd disgwyl i bob aelod o gymuned yr ysgol lynu at reolau ymbellhau cymdeithasol a byddwn yn cefnogi eich plentyn i ddeall beth mae hyn yn ei olygu iddyn nhw, eu cyfoedion, a'u hathrawon. Bydd arwyddion ymbellhau cymdeithasol o amgylch yr ysgol yn helpu i atgoffa pawb o'r disgwyliadau hyn. Bydd system un-ffordd yn cael ei gweithredu yn llym y tu-fewn i'r adeilad a fydd yn sicrhau na fydd disgyblion yn cerdded yn erbyn ei gilydd. Pan yn bosibl, fe fydd yr ysgol yn lleihau symudiadau'r disgyblion yn ystod y dydd. Bydd pob grŵp cyswllt yn cael rhanbarth 'zone' arbennig yn ystod cyfnodau di-gyswllt a bydd disgwyl i'r disgyblion barchu'r rhanbarthau hyn.

Rydym yn gofyn yn garedig i chi fel rhieni i barchu rheolau ymbellhau cymdeithasol wrth ollwng a chasglu eich plentyn o safle'r ysgol, gan fod angen i ni gymryd pob mesur i leihau nifer y bobl sy'n ymgynnull y tu allan i'r ysgol. Gofynnwn i chi beidio a chyrraedd cyn 8:30 yn y bore a dim cyn 3:20 yn y prynhawn. Er diogelwch pawb, bydd ymwelwyr â'r ysgol yn cael eu monitro'n llym a dim ond am resymau hanfodol/brys y cânt eu caniatáu. Fel ysgol fe fyddwn, am y cyfnod nesaf, yn atal ein polisi drws agored i rieni ac os oes unrhyw un yn dymuno siarad gydag unrhyw aelod o'r Uwch Dim Arwain neu Bennaeth Blwyddyn, gofynnwn i chi wneud hynny dros y ffôn.

Posterï: Bydd posterï rhannu gwybodaeth ar draws yr ysgol am bynciau amrywiol megis pellter ymbellhau cymdeithasol, rheolau glanweithdra o ran golchi dwylo ac o ran pesychu neu disial.

Golchi dwylo: Bydd yn ofynnol i ddisgyblion a staff olchi/diheintio eu dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd drwy gydol y dydd. Mae sinciau dros dro ymhob allanfa ar gyfer golchi dwylo a thoiledau arbennig wedi ei nodi ar gyfer pob bloc. Mae gorsafoedd diheintio dwylo y tu-allan i bob ystafell ddysgu, tu-allan i'r ffreutur ac o gwmpas yr ysgol. Bydd cyfarwyddiadau pendant iawn yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion o ran golchi dwylo a bydd disgwyl iddynt sicrhau eu bod yn gwneud hynny – cyn gadael y cartref, pan yn cyrraedd yr ysgol, ar ôl defnyddio'r toiled, ar ôl egwyl a chinio ac unrhyw ymarfer corff, cyn gadael yr ysgol. Mae cadachau glanhau (*wipes*) a hancesi ymhob ystafell ddosbarth a PPE ar gael ar gyfer pob athro.

Ei ddal, ei daflu, ei ddifa: Fe fydd yr ysgol yn sicrhau bod digon o hancesi a biniau ar gael ar gyfer dysgwyr a staff er mwyn dilyn y canllawiau. Bydd pob disgybl yn cael eu hannog i wneud.

Gorsafoedd gwaith: Bydd desgiau pob ystafell yn wynebu'r blaen (heblaw am y labordai) a bydd disgwyl i'r disgyblion eistedd ochr yn ochr gan wynebu'r blaen. Gofynnwn i bob disgybl ddod ac adnoddau perthnasol

yn unig o'r cartref, hynny yw câs pensil yn cynnwys yr adnoddau angenrheidiol yn unig. Ni fydd hawl rhannu'r adnoddau yma gyda neb arall.

Glanhau: Bydd cyfundrefnau glanhau manwl iawn yn yr ysgol, gyda glanhau arwynebau y cyffyrddir arnynt yn rheolaidd, dolenni drysau, toiledau ac ati trwy gydol y dydd. Bydd y mwyafrif o'r drysau yn cael eu cadw ar agor er mwyn sicrhau nad oes angen cyffwrdd.

Gwisg ysgol: Bydd disgwyl i'r disgyblion wisgo gwisg ysgol lawn ar eu diwrnod cyntaf pan yn dychwelyd i'r ysgol. Bydd rheolau arferol gwisg a golwg cyffredinol yn dal yn weithredol a gofynnwn am eich cydweithrediad o'r dechrau. Fe fydd disgyblion yn newid ar gyfer gwersi ymarfer corff pan fydd yr amserlen glanhau yn caniatáu.

Bwyd a diod: Bydd ffreutur yr ysgol ar gau yn ystod yr wythnos gyntaf. Felly, bydd angen i bob disgybl ddod â'u pecyn cinio, byrbrydau a diod eu hunain i'r ysgol. (*Mae hyn yn cynnwys dysgwyr PYDd, gan fod taliadau'n mynd yn uniongyrchol at deuluoedd bellach*). Os na fydd pecyn bwyd gan y plentyn yna bydd galwad ffôn yn cael ei wneud i'r cartref i naill ai ddod a phecyn bwyd neu ddod i hôl y plentyn amser cinio.

O'r 7fed o Fedi rydym yn edrych ar dreialu cynllun newydd o ran darparu cinio. Bydd cinio twym ac oer ar gael ar gyfer rhai blynyddoedd yn unig er mwyn i ni fedru gweld sut bydd y cynllun yn gweithio ac er mwyn amseru'r broses. Y drefn yw y bydd disgyblion yn ciwio, yn eu blwyddyn, y tu-allan i'r ffreutur ochr cinio oer gan gerdded drwy'r ffreutur i gasglu bwyd twym ar yr ochr chwith arferol a bwyd oer ar yr ochr dde lle y byddai'r byrddau yn arfer bod. Byddant yn diheintio eu dwylo cyn mynd i fewn i'r ffreutur. Byddant yn talu yn dilyn y drefn arferol trwy ddefnyddio ei bys (a fydd wedi ei ddiheintio). Yna fe fyddant yn cerdded i mewn i'r neuadd i fwyta eu cinio ar y byrddau arferol. Bydd sgriniau perspecs rhwng y disgyblion a byddant yn cael eu rhannu fesul grŵp blwyddyn. Byddant yn gadael y neuadd trwy'r drysau mewnol gan osgoi dychwelyd yr un ffordd. Bydd disgwyl iddynt glirio ei sbwriel i'r biniau ar bwys y drysau, diheintio eu dwylo wrth adael gan ddilyn y system un-ffordd. Bydd pob cyfarpar a ddarperir gan y ffreutur yn cael ei ddefnyddio unwaith yn unig. Bydd pob arwynebedd yn cael ei lanhau rhwng y blynyddoedd. Bydd unrhyw un sy'n dod a brechdanau hefyd yn bwyta yn y neuadd.

Byddwn yn eich hysbysu pa flynyddoedd a fydd yn medru defnyddio'r ffreutur ymlaen llaw.

Byddwn hefyd yn treialu'r defnydd o Panedini ar gyfer blynyddoedd 12 a 13. Byddant yn casglu eu cinio o Panedini – mewn trwy ddrws Panedini ac allan trwy'r llwyfan i'r lolfâ neu i'r cwrt canol o dan gysgodfan newydd lle y byddant yn bwyta eu bwyd.

Ni fydd y ffreutur yn darparu bwyd amser egwyl o gwbl tan gwyliu hanner tymor o leiaf.

Presenoldeb: Gan ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru bydd pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod tymor yr Hydref onibai fod ganddynt reswm neu gyflwr meddygol dros beidio a gwneud. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan na chaiff unrhyw ddirwyon eu rhoi yn ystod yr hanner tymor cyntaf ond bydd hi'n orfodol bod disgyblion yn yr ysgol. Rydym yn annog pob plentyn, os ydynt yn iach, i ddychwelyd i'r amgylchedd ysgol yn raddol fel yr uchod.

Disgyblion symptomatig: Os yw disgybl yn dangos symptomau Covid-19 tra yn yr ysgol, bydd ganddo fynediad i ystafell ynysu. Cysylltir â chi fel rhieni a disgwylir i chi gasglu'ch plentyn o'r ysgol ar unwaith. Bydd yr ardaloedd lle roedd y plentyn yn mynychu yn cael eu glanhau'n drylwyr yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol nad oes unrhyw blentyn yn cael ei anfon i'r ysgol os yw'n sâl neu'n dangos unrhyw un o'r tri symptom Covid-19 a nodwyd (*peswch newydd parhaus, tymheredd uchel neu golli blas neu arogl*); neu os ydyn nhw, neu aelod o'r cartref, wedi profi'n bositif am Covid-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf. Os oes gan unrhyw ddisgybl y symptomau hyn bydd gofyn iddynt ymgysylltu â'r Strategaeth Profi Orlhain

Diogelu (TTP). Mae'r strategaeth hon yn nodi cam nesaf dull LIC o fynd i'r afael â coronafirws; profi disgyblion â symptomau, olrhain y rhai sydd wedi dod i gysylltiad agos â'r disgyblion ac amddiffyn teulu, ffrindiau a'r gymuned trwy hunan-ynysu. Byddwn fel ysgol yn atgoffa pob teulu, os bydd unrhyw ddisgybl neu aelod o'r teulu yn dangos unrhyw un o'r symptomau, bydd angen iddynt hunan-ynysu ar unwaith ac archebu prawf. Yn ystod y tu-allan i oriau ysgol, cyfrifoldeb rhieni / gwarchedwaid yw riportio symptomau Covid-19 i Delta Wellbeing ar unwaith trwy ffonio 0300 333 2222 neu e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk

Cytundeb cartref-ysgol: Mae'r cytundeb cartref-ysgol wedi cael ei ddiweddarau. Mae'r ddogfen yn amlinellu y disgwyliadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch ac ymgysylltu â dysgu.

Ymddygiad: Gwn bod ymddygiad y mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn arbennig o dda ac nid ydym yn disgwyl i hyn newid. Mae'n rhaid i ni eich hysbysu, er hynny, bod ymddygiad a fydd yn torri y rheolau o ran ymbellhau cymdeithasol ac yn rhoi eraill mewn risg yn golygu na fydd eich plentyn yn medru parhau yn yr ysgol. Byddwn yn gofyn i chi fel rhieni i gasglu eich plentyn os bydd unrhyw broblem.

Ffonau: Am yr hanner tymor cyntaf, os yw'n gwbl angenrheidiol i'ch plentyn i gael ffôn ar ddiwedd y diwrnod ysgol yna fe ganiateir iddynt ei gario. Hoffem nodi, fodd bynnag, nad yw hyn yn newid parhaol i'r polisi ysgol, dim ond am y cyfnod byr. Yn wahanol i'r arfer ni fydd hawl ganddynt i roi eu ffonau yn y swyddfa a bydd rhaid iddynt eu cario yn eu bagiau. Ni fydd caniatâd ganddynt i dynnu eu ffôn o'r bag yn ystod y dydd a chofiwch os y digwydd anffawd neu os byddant yn colli eu ffôn, ni fydd yswiriant gan yr ysgol. Os fydd eich plentyn yn defnyddio ei ffôn heb ganiatâd, yna bydd y ffôn yn cael ei rhoi yn y swyddfa tan ddiwedd y dydd. Cofiwch bod tystiolaeth bod ffonau symudol yn medru cario'r haint ac, felly, anogwn chi i sicrhau bod eich plentyn, os oes rhaid iddynt gael ffôn, yn dilyn y rheolau yma ac yn sychu'r ffôn yn drwyadl ar ôl ei defnyddio. Y cyngor gorau yw i bob plentyn adael ei ffôn adref.

Darpariaeth ofal: Mae canllawiau LICC yn nodi na fydd angen i'r ysgol ddarparu Hwb gofal plant ym mis Medi.

Asesu risg: Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â pholisi asesu risg Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Byddwn yn gwneud pob ymdrech i liniaru a lleihau risgiau cyn belled ag y bo'n bosibl yn ein hysgol. Bydd mesurau yn cynnwys cyfleoedd mynych i olchi dwylo, cyfyngu'n llym nifer y disgyblion a'r oedolion ar safle'r ysgol, ymbellhau cymdeithasol a rota glanhau gaeth.

PPE: Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i staff na disgyblion wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE) ar yr adeg hon, ac eithrio mewn achosion lle mae ymbellhau cymdeithasol yn cael ei beryglu, ee. cymorth cyntaf, cymorth â mynd i'r toiled lle mae pecynnau gofal a chymorth pwrpasol yn mynnu bod angen hynny. Penderfyniad personol y disgybl a'r aelod o staff yw a fydd yn gwisgo cyfarpar diogelu personol a byddwn yn parchu hynny. Byddwn yn eich diweddarau ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r rheol hon pan ddaw.

Toiledau: Bydd disgyblion yn defnyddio y toiledau canlynol gan gadw at y grŵp blwyddyn pan fo hynny'n bosibl:

- Bl 7 – toiledau lan lofft drws C
- Bl 8 – toiledau lawr staer drws C
- Bl 9 – toiledau lawr staer drws A
- Bl 10 – toiledau lawr staer drws D
- Bl 11 – toiledau lan lofft drws D
- Bl 12 – toiledau lan lofft drws A
- Bl 13 – toiledau lan lofft drws A

Bydd y toiledau yn cael eu glanhau yn rheolaidd gan ddilyn ein protocol glanhau.

Trafnidiaeth: Yn ôl gwefan Sir Gâr mae'r cardiau teithio i bob disgybl yn cael eu prosesu ar hyn o bryd ac yn cael eu danfon allan cyn mis Medi – mae rhai eisoes wedi cyrraedd. Mae dogfen ddiweddaraf y Llywodraeth yn nodi nad oes yn rhaid gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant penodedig rhwng y cartref a'r ysgol (Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr Hydref, tud 26). Rydym yn annog y disgyblion sy'n medru i gerdded i'r ysgol neu seiclo. Os ydych yn dod a'ch plentyn i'r ysgol yn ddyddiol mewn car yna gofynnir i chi ddilyn y system un-ffordd o gwmpas y maes parcio ac i adael eich plentyn yn syth cyn gyrru i ffwrdd. Gofynnwn i chi beidio dod allan o'ch car i sgwrsio gydag eraill. Wrth i chi gasglu eich plentyn ar ddiwedd y dydd gofynnwn i chi ddilyn yr un drefn ac i beidio dod allan o'ch ceir i aros am eich plentyn. Byddai'n dda o beth bod rhai ohonoch yn cytuno i gasglu eich plentyn efallai y tu-allan i furiau'r ysgol, er enghraifft, ger Pibwrlwyd neu Halfords er mwyn osgoi bod gormod o geir ar y safle yr un pryd. Gofynnwn i chi beidio cyrraedd y safle o gwbl cyn 3:20. Bydd eich cyd-weithrediad yn allweddol dros yr wythnosau nesaf gan ein bod yn rhagweld y gallai traffig diwedd dydd fod yn broblem. Gall blwyddyn 13 sy'n gyrru ddod a char i'r ysgol ond gofynnwn iddynt naill ai i adael cyn 3:20 neu i beidio parcio ar dir yr ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod digon o le ar dir yr ysgol i fedru rheoli y traffig.

Gwasanaeth: Ar hyn o bryd ni fydd gwasanaethau ysgol gyfan yn cael eu cynnal. Bydd gwasanaethau blwyddyn yn cael eu cynnal maes o law gan gadw at ganllawiau LICC.

Dechrau a diwedd y dydd: Mae canllawiau LICC yn awgrymu y dylid amrywio oriau dechrau a diwedd y dydd er mwyn cadw grwpiau arwahan pan maent yn cyrraedd a gadael yr ysgol. Fe fyddwn yn gweithio gyda blwyddyn 12 a 13, cohort o 200 o ddisgyblion i geisio sicrhau bod hyn yn medru cael ei weithredu pan bydd hynny'n bosibl.

Amser cinio ac egwyl: Fe fydd 'zone' – rhanbarth – gyda phob blwyddyn. Bydd gofyn i'r flwyddyn i gadw i'r rhanbarth honno adeg egwyl a chinio. Bydd cyfrifoldeb ar y plentyn unigol i sicrhau hynny.

Llyfrau gwaith: Bydd pob disgybl yn gweithio, fel arfer, mewn llyfrau neu becynnau gwaith a fydd yn cael eu darparu gan yr adrannau. Yn dilyn canllawiau LICC ni fydd hi'n bosibl i'r athrawon i gasglu llyfrau'r disgyblion i'w marcio. Fe fydd unrhyw waith asesu o fewn y llyfrau yn datblygu sgiliau hunanasesu y disgybl o dan gyfarwyddid yr athro. Bydd unrhyw waith a fydd yn cael ei farcio yn gorfod cael ei gyflwyno i'r athrawon trwy Google Classrooms gan y disgybl. Bydd y gwaith hwnnw'n cael ei farcio a'i ddychwelyd yn electronig. Bydd pob disgybl yn cael cyfarwyddiadau pellach gan yr adrannau.

Adnoddau: Ni fydd yr adrannau yn rhoi offer megis peniau, pensiliau, prenau mesur, cyfrifianellau, glud na sisiyrnau i ddisgyblion. Mae angen i bob disgybl sicrhau bod ganddynt becyn o adnoddau ac ni ddylent eu rhannu gydag eraill yn y dosbarth.

Cynllun wrth gefn: Er taw y cynllun yw bod pob dysgwr yn dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr Hydref rydym yn cynllunio ar gyfer posibilrwydd o gyfnod clo arall. Oherwydd ansicrwydd am y feirws ei hun mae'n rhaid i ni baratoi cynllun wrth gefn. Ein cynllun yw sicrhau o ddechrau Medi bod pob disgybl yn derbyn hyfforddiant ar y defnydd o Google Meet a bydd pob cytundeb wedi ei arwyddo yn ystod y mis. Bydd bob athro wedi derbyn hyfforddiant a byddwn yn treialu'r cynllun gyda disgyblion CA4 a CA5 ym mis Medi.

Cyfathrebu: Fe fydd y Pennaeth yn rhannu unrhyw negeseuon penodol gyda chi fel rhieni trwy ParentPay gan eich diweddarau pan fo angen. Bydd rhai negeseuon hefyd ar wefannau yr ysgol. Gofynnwn i chi gadw llygad barud ar y sianelau yma gan y bydd pob darn o wybodaeth yn cael ei rannu trwy'r systemau hyn.

Profiadau allweddol: Edrychwn ymlaen at groesawu eich plant / ein disgyblion yn ôl i'r ysgol ym mis Medi a byddwn yn canolbwyntio ar ddechrau o'r newydd gan ddilyn canllawiau LICC.

Gwn eich bod fel rhieni yn gwybod y byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod profiad dychwelyd eich plentyn i'r ysgol mor ddiogel ac mor bleserus â phosibl.

Diolch i chi am eich cydweithrediad a'ch amynedd.